

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
Answers to Questions not reached in Plenary
11/06/2008

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cwestiynau i Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

Questions to the Deputy First Minister and the Minister for the Economy and Transport

Economic Inactivity Levels

Q9 Mark Isherwood: Will the Deputy First Minister make a statement on economic inactivity levels in Wales?
OAQ(3)0567(ECT)

The Deputy First Minister: I am taking forward a range of programmes to continue to tackle inactivity by providing support to people to overcome barriers to work. These include Job Match and the Want to Work project.

Lefelau Anweithgarwch Economaidd

C9 Mark Isherwood: A wnaiff y Dirprwy Brif Weinidog ddatganiad am lefelau anweithgarwch economaidd yng Nghymru?
OAQ(3)0567(ECT)

Y Dirprwy Brif Weinidog: Yr wyf wrthi'n datblygu ystod o raglenni a fydd yn parhau i fynd i'r afael ag anweithgarwch wrth ddarparu cymorth i bobl oresgyn y rhwystrau sy'n eu hatal rhag gweithio. Ymhlith y rhain mae Paru Swyddi a'r prosiect Yn Awyddus i Weithio.

The Welsh Economy

Q13 Nick Bourne: Will the Deputy First Minister make a statement on the future of the Welsh economy?
OAQ(3)0599(ECT)

The Deputy First Minister: Thanks to the Assembly Government's flexible and strategic approach to supporting businesses and creating an environment for them to flourish, the future prospects for the sustainable growth of the Welsh economy are promising, even in the light of the global challenges that we are currently facing.

Economi Cymru

C13 Nick Bourne: A wnaiff y Dirprwy Brif Weinidog ddatganiad am ddyfodol economi Cymru?
OAQ(3)0599(ECT)

Y Dirprwy Brif Weinidog: Oherwydd dull hyblyg a strategol Llywodraeth y Cynulliad o gefnogi busnesau a chreu amgylchedd lle gallant ffynnu, mae'r argoelion yn dda ar gyfer twf cynaliadwy economi Cymru yn y dyfodol, hyd yn oed o ystyried yr heriau rhyngwladol yr ydym yn eu hwynebu ar hyn o bryd.

Local Authorities

Q14 Peter Black: Will the Deputy First Minister confirm how much transport grant will be available for the use of local authorities over the next three years?
OAQ(3)0581(ECT)

Awdurdodau Lleol

C14 Peter Black: A wnaiff y Dirprwy Brif Weinidog gadarnhau faint o grant trafndiaeth fydd ar gael i awdurdodau lleol ei ddefnyddio dros y tair blynedd nesaf?
OAQ(3)0581(ECT)

The Deputy First Minister: The indicative transport grant budget for the next three years is £333.7 million.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Ar gyfer y tair blynedd nesaf, £333.7 miliwn yw cyllideb ddangosol y grant trafndiaeth.

Carbon Emissions

Allyriadau Carbon

Q15 Darren Millar: What steps has the Deputy First Minister taken to reduce carbon emissions across his portfolio responsibilities? OAQ(3)0564(ECT)

C15 Darren Millar: Pa gamau y mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi'u cymryd i leihau allyriadau carbon ar draws ei gyfrifoldebau portffolio? OAQ(3)0564(ECT)

The Deputy First Minister: I am committed to pursuing a low carbon economy. A number of initiatives including the Wales transport strategy, low carbon developments, and our green jobs strategy are taking this forward.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Yr wyf wedi ymrwymo i anelu at economi sy'n rhad ar garbon. Mae nifer o fentrau gan gynnwys strategaeth drafnidiaeth Cymru, datblygiadau isel mewn carbon, a'n strategaeth swyddi gwyrdd yn datblygu'r amcanion hyn.